



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Penaethiaid Ysgolion Uwchradd
Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol
Cyfarwyddwyr Addysg

Cc:

Cydlynwyr Rhanbarthol 14-19
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

6 Chwefror 2019

Annwyl Gydweithwyr

Mesurau Perfformiad Interim ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 – Manylion Pellach

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer mesurau perfformiad interim ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis [Mai 2018](#).

Bydd y wybodaeth hon sydd i'w gweld yn Adrodd ar Berfformiad Ysgolion – Bwletin 6 yn egluro'r manylion sy'n sail i'r mesurau interim: sut y byddant yn cael eu cyfrifo, y cymwysterau a all fwydo i'r broses gyfrifo a pha ddisgyblion fydd yn cael eu cyfrif. Ynnddo hefyd, rydym yn egluro cyd-destun y newidiadau hyn, ein disgwyliadau o ran sut y dylid defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad a'r hyn y mae angen i ysgolion ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu cynnig cwricwlwm. Mae trefniadau adrodd cysylltiedig y mesurau interim yn dal i gael eu cwblhau. Ddiwedd y gwanwyn byddwn yn cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr ar agweddau megis pa ddata fydd yn cael ei ddarparu i ysgolion, disgwyliadau penodol ynghylch sut y dylai ysgolion edrych ar ddeilliannau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr, ac yn cynnwys sut y bydd dadansoddiad o 'draeanau' yn gweithio.

Mae'r mesurau interim yn drefniadau trosiannol i bob pwrpas wrth i ni symud tuag at y trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ym mis Chwefror a fydd yn cynnwys llinell amser lefel uchel ar gyfer y gwaith hwnnw.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i dynnu'ch sylw at ein hymgyngoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r gofynion statudol ar osod targedau i ysgolion. Gellir gweld yr ymgynghoriad [yma](#) a bydd yn cau ar 8 Mawrth. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Er na fydd cyrhaeddiad yn erbyn mesurau Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 yn cael ei gyhoeddi mwyach o 2019 ymlaen, mae'r gofyniad i ysgolion osod targedau ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn erbyn y mesurau hyn wedi aros yn y ddeddfwriaeth ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018- 2019. Felly, er mwyn cynorthwyo ysgolion i fonitro cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer cyrhaeddiad Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1, yn hydref 2019 byddwn yn darparu data cyrhaeddiad Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 yn ogystal â data'r mesurau interim i ysgolion. Darperir dwy fersiwn ar gyfer y mesur Lefel 2 cynhwysol: un gyda, ac un heb gymwysterau Llenyddiaeth Gymraeg neu Saesneg yn gallu cyfrannu at y gydran llythrennedd.

Cofiwch rannu'r wybodaeth gyd-destunol a thechnegol hon ar y mesurau CA4 interim gyda'ch cydweithwyr yn y consortia, awdurdodau lleol ac ysgolion fel y bo'n briodol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y llythyr hwn yna e-bostiwch ni yn ims@llyw.cymru.

Yn gywir



Steve Vincent
Dirprwy Gyfarwyddwr
Effeithiolrwydd Ysgolion